DYDDIEDIG **23 MAWRTH** **2021**

GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

(PLYMOUTH STREET, KING GEORGE STREET, MOSTYN STREET A ROWDEN STREET, SHOTTON)

(TRAFFIG UNFFORDD) 2021

Stephen O Jones,
Prif Swyddog
(Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF

GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

(PLYMOUTH STREET, KING GEORGE STREET, MOSTYN STREET A ROWDEN STREET, SHOTTON)

(TRAFFIG UNFFORDD) 2021

Mae Cyngor Sir y Fflint, wrth ddefnyddio'i bwerau dan adrannau 1 (1) a 2 (1) a (2) a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd, a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, trwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Ni chaiff unrhyw berson, ac eithrio dan gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd Cwnstabl mewn Lifrai, achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd, ar wahân i feiciau pedal, fynd ar hyd y darn o ffordd a nodir yng ngholofn 1 Atodlen y Gorchymyn hwn i gyfeiriad ar wahân i'r cyfeiriad a nodir mewn perthynas â'r darn hwnnw o ffordd yng Ngholofn 2 yr Atodlen.

3. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, ac nid yn amhariad ar, unrhyw gyfyngiad neu ofyniad sy'n berthnasol dan unrhyw reoliadau a wnaed neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984, neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall.

4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

5. Bydd y gorchymyn, wneud yn dirymu Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Plymouth Street, King George Street, Mostyn Street a Rowden Street, Shotton) (Traffig Unffordd) 2002 yn ei gyfanrwydd.

6. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Ebrill 2021 a gellir ei alw'n Orchymyn Cyngor Sir y Fflint (Plymouth Street, King George Street, Mostyn Street a Rowden Street, Shotton) (Traffig Unffordd) 2021.

ATODLEN

Colofn 1 **Enw'r Ffordd**	**Colofn 2** **Cyfeiriad a Ganiateir**
Plymouth Street, Shotton: O'i chyffordd gyda B5129 Chester Road (West) at ei chyffordd gyda Mostyn Street	**Gogledd ddwyreiniol**
King George Street, Shotton: O'i chyffordd gyda B5129 Chester Road (West) at ei chyffordd gyda Mostyn Street.	**De orllewinol**
Mostyn Street, Shotton: O'i chyffordd gyda King George Street, at ei chyffordd gyda Plymouth Street.	**Gogledd orllewinol**
Rowden Street, Shotton: O'i chyffordd gyda B5129 Chester Road (West) am bellter o 76 metr i gyfeiriad y de-orllewin.	**De orllewinol**

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN)
CYNGOR SIR Y FFLINT)
yn y fan hon)
ar y 23 diwrnod hwn o Mawrth 2021)
ym mhresenoldeb:-)

Marion Bateman.

Y CADEIRYDD

~~RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL~~
PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU